# NODIADAU CANLLAW

# CAIS NEWYDD AM DRWYDDED GYRRWR CERBYDAU HACNI / CERBYD LLOGI PREIFAT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

## Pwy all wneud cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Cerbyd Llogi Preifat

Mae'n ofynnol bod unrhyw berson sydd am yrru Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwneud cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Llogi Preifat. Fel arfer caiff Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Llogi Preifat ei chyflwyno am gyfnod o dair blynedd.

Cyn i chi wneud cais o'r fath dylech dreulio peth amser i ddarllen y nodiadau canllaw hyn i benderfynu a ydych yn bodloni'r meini prawf gofynnol i ddyfod yn Yrrwr Cerbyd Hacni / Llogi Preifat.

## Ydw i'n cymhwyso am drwydded?

Er mwyn cymhwyso am drwydded rhaid eich bod yn cael eich ystyried i fod yn berson abl a phriodol i fod yn ddeiliad trwydded o'r fath, eich bod wedi bod yn ddeiliad trwydded yrru lawn gyfredol DVLA am o leiaf 12 mis, wedi pasio archwiliad meddygol at safon grŵp II DVLA, wedi llwyddo ym mhrawf gwybodaeth yr Awdurdod, wedi pasio asesiad tacsi gyda'r Blue Lamp Trust neu Diamond Advanced Motoring ac yn gymwys i weithio yn y DU.

## Sut ydw i'n ymgeisio?

Er mwyn ymgeisio mae'n ofynnol eich bod yn gwneud apwyntiad gyda'r Adran Drwyddedu. Os byddwch yn ymddangos heb apwyntiad y mae'n annhebygol y bydd y staff ar gael i'ch gweld chi.

Ar ôl i chi wneud apwyntiad, mae'n ofynnol eich bod yn dod â'r canlynol gyda chi:

- Ffurflen gais wedi ei chwblhau;
- Ffurflen Caniatâd am Hawl am Yrru DVLA wedi ei chwblhau (Gwiriad ehangach GBG J085);
- Eich trwydded yrru gyfredol DVLA ;
- Tystiolaeth o bwy ydych chi yn cynnwys prawf o'ch cymhwyster i weithio yn y DU;
- 1 ffotograff lliw maint pasbort;
- Y ffurflen gais;
- Tystiolaeth o'ch hunaniaeth i gwblhau cais ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod yr apwyntiad.

Rhaid i'r holl ymgeiswyr newydd hefyd ddarparu'r dogfennau canlynol i gwblhau eu cais:

- Tystysgrif feddygol i'w chwblhau gan Feddyg Teulu'r ymgeisydd
- Tystysgrif cymhwyso oddi wrth Blue Lamp Trust neu Diamond Advanced Motoring ar gyfer yr asesiad tacsi
- Gwiriad cofnodion troseddol ar gyfer yr holl wledydd y mae'r ymgeisydd wedi byw ynddynt am gyfnod o dros 6 mis yn olynol
- Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y byddwch yn ei derbyn drwy'r post ar ôl gwneud eich cais ar-lein yn y swyddfa.

## Tystiolaeth o Gymhwyster i Weithio yn y DU

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd newydd ddarparu prawf o gymhwysedd er mwyn gweithio yn y DU. Gellir gwneud hyn mewn un o ddwy ffordd:

1. Drwy ddarparu dogfen(nau) o'r rhestr hon https://www.merthyr.gov.uk/media/3032/right-to-work-documents_cymraeg.pdf
2. Darparu eu 'cod rhannu' er mwyn galluogi'r Adran Drwyddedu i gynnal gwiriad gan ddefnyddio gwasanaeth hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref.

Er mwyn arddangos eu hawl i weithio drwy wasanaeth hawl i weithio, ar-lein y Swyddfa Gartref, dylai ymgeiswyr ddarparu, fel rhan o'r broses ymgeisio, eu cod rhannu 9 digid (a ddarparwyd iddynt wrth gyrchu'r gwasanaeth ar https://www.gov.uk/prove-right-to-work) a fydd, ynghyd â dyddiad geni'r ymgeisydd yn caniatau i'r awdurdod lleol gynnal y gwiriad.

Ni fydd gwiriad ar-lein yn bosib ymhob achos gan na fydd gan bob ymgeisydd statws mewnfudiad y gellir eu gwirio ar-lein. Mae gwasanaeth gwirio hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref yn nodi pa wybodaeth a/neu ddogfennaeth sydd eu hangen ar ymgeiswyr er mwyn cyrchu'r gwasanaeth. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr na fydd yn gallu cael cod rhannu gan y gwasanaeth i gyflwyno dogfennau o'r ddolen uchod.

## Gwiriad Cofnodion Troseddol

Mae'n ofynnol bod yr holl ymgeiswyr yn cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a fydd yn rhoi gwiriad cofnod troseddol ehangach ynghylch cyfnod person yn y DU.

Caiff y cais DBS ei wneud ar-lein yn y Ganolfan Ddinesig yn ystod yr apwyntiad gwneud cais. Noder, er mwyn ymgeisio am DBS ei fod yn ofynnol i ni gael tystiolaeth adnabyddiaeth, mae'r pecyn ymgeisio hwn i yrwyr yn cynnwys rhestr dderbyniol o ID y gellir ei ddarparu.

Ar ôl derbyn tystysgrif DBS, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ei chyflwyno i'r Adran Drwyddedu. Mae'n ofynnol bod pob Gyrrwr Cerbyd Hacni a Llogi Preifat yn cael gwiriad DBS a chyflwyno tystysgrif DBS cyn cyflwyno pob cais newydd a chais adnewyddu.

Noder ar ôl cael eich trwyddedu fel Gyrrwr Cerbyd Hacni / Llogi Preifat ei fod yn ofynnol i chi hysbysu'r Adran Drwyddedu ymhen 7 niwrnod ynghylch unrhyw droseddau moduro yn cynnwys cosb benodedig ac unrhyw euogfarn am drosedd ac unrhyw rybudd neu gerydd.

## Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor

Rhaid i bob ymgeisydd sydd wedi treulio cyfnod o 6 mis neu ragor o fisoedd yn olynol mewn gwlad arall hefyd ddarparu gwiriad cofnod troseddol oddi wrth y wlad neu'r gwledydd yr oedd yn byw ynddi/ynddynt. Rhaid i'r dystysgrif gynnwys yr holl gyfnod yr oedd yr ymgeisydd yn byw dramor ond i beidio â bod yn fwy na 4 mis oed pan fydd yn cael ei chyflwyno i'r Adran Drwyddedu.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynghylch cael gwiriad cofnodion troseddol oddi wrth wledydd tramor yma https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw trefnu'r gwiriad a darparu tystysgrif yn Saesneg.

## Tystysgrif Feddygol

Rhaid i bob ymgeisydd newydd ddarparu "Tystysgrif Feddygol Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Llogi Preifat" Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ei chwblhau gan Feddyg Teulu y mae wedi cofrestru ag ef neu hi. Rhaid i'r Adran Drwyddedu dderbyn y dystysgrif feddygol ymhen 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd ei chwblhau a'i harwyddo gan y Meddyg Teulu.

Bydd yn ofynnol bod y Meddyg Teulu'n rhoi archwiliad i'r ymgeisydd ac yn cael mynediad at ei hanes meddygol wrth gwblhau'r ffurflen a datgan a yw'r ymgeisydd yn feddygol ffit i yrru Cerbyd Hacni a/ neu Gerbyd Llogi Preifat. Rhaid i'r feddygfa roi stamp ar y ffurflen. Noder nad yw'r dystysgrif hon yn un sydd yn gorfod cael ei chyflwyno am ddim fel rhan o'r GIG. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd a godir.

Mae'n ofynnol gan y Cyngor fod yr holl ymgeiswyr yn bodloni safonau meddygol Grŵp II i'w cyflwyno gyda Thrwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ganllawiau meddygol cyfredol y DVLA yma https://www.gov.uk/government/collections/current-medical-guidelines-dvla-guidance-for-professionals.

Ar ôl derbyn Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat, bydd yn ofynnol darparu Tystysgrif Feddygol pan fydd y gyrrwr yn 45, 50, 55, 60, 65 ac yn flynyddol wedi hynny. Noder fod yna rai amodau meddygol ble y gall fod yn ofynnol i yrrwr trwyddedig ddarparu Tystysgrifau Meddygol yn amlach.

Rhaid i bob gyrrwr trwyddedig roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu ymhen 14 diwrnod am unrhyw newid i'w ffitrwydd meddygol a allai effeithio ar ei allu i yrru er mwyn cyflawni dyletswyddau Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Logi Preifat.

## Prawf Gwybodaeth

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd newydd lwyddo ym mhrawf gwybodaeth yr Awdurdod. Mae'r prawf gwybodaeth wedi ei rannu'n adrannau:

- Gwybodaeth o'r ardal leol
- Deddfwriaeth ac amodau ac is-ddeddfau'r Awdurdod hwn
- Diogelu
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Prawf sgiliau llafar

Cynghorir ymgeiswyr i astudio dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r adrannau ar "Diogelu" a " Deddfwriaeth ac amodau ac is-ddeddfau'r Awdurdod hwn" cyn iddynt gymryd y prawf. Gellir dod o hyd iddynt ar wefan CBSMT.

## Asesiad Prawf Yrru Tacsi

Mae'n ofynnol bod pob ymgeisydd newydd yn pasio asesiad tacsi gydag un o'r ddau ddarparwr a gymeradwyir gan yr Awdurdod hwn ac sy'n gyfrifol am drefnu'r prawf y gellir ei archebu ar-lein drwy eu gwefannau.

Mae gwybodaeth bellach a manylion cyswllt ar gyfer y darparwyr i'w canfod isod:

**Diamond Advanced Motorists Ltd**
Cyfeiriad gwefan: www.advancedmotoring.co.uk
E-bost: help@advancedmotoring.co.uk
Ffôn: 020 8253 0120

**The Blue Lamp Trust**
Cyfeiriad gwefan: www.bluelamptrust.org.uk
E-bost: info@bluelamptrust.org.uk
Ffôn: 033 3700 0157

## Pa ffioedd sydd angen i mi eu talu?

Mae'r ffioedd canlynol yn daladwy i'r Adran Drwyddedu ar ôl cyflwyno eich cais:

- Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni Newydd neu Drwydded Gyrrwr Llogi Preifat Newydd - £272
- Cais am Wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) - £50
- Ffurflen Caniatâd am Hawl i Yrru DVLA D796 (Mandad DVLA) - £15
- Y prawf gwybodaeth - £25

Noder y bydd y taliadau ychwanegol canlynol yn ofynnol oddi wrth ymgeiswyr i'w talu'n uniongyrchol i'r darparwyr:

- Archwiliad meddygol preifat yr ymgeisydd gyda'r Meddyg Teulu,
- Prawf asesiad gyrru tacsi;
- Gwiriad cofnodion troseddol tramor a chostau cyfieithu (ble y bo'n gymwys).

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid i bob ymgeisydd am Drwydded i Yrrwr Cerbyd Hacni / Cerbyd Llogi Preifat gael ei ystyried i fod yn berson abl a phriodol i fod yn ddeiliad trwydded o'r fath. Am wybodaeth bellach am ein meini prawf ffitrwydd cyfeiriwch at 'Polisi Pennu Addasrwydd Ymgeiswyr aThrwyddedeion yn y Fasnach Cerbyd Hacni a Huri Preifat' sydd ar gael oddi wrth yr Adran Drwyddedu.

Pan nad oes euogfarn droseddol gan ymgeisydd nac unrhyw rybudd, cerydd na throsedd yrru, a'i fod wedi cwblhau'r holl wiriadau gofynnol, wedi pasio'r prawf DSA a'r dystysgrif feddygol ac wedi darparu prawf o gymhwyster i weithio yn y DU, dylid cyflwyno trwydded.

Os oes unrhyw euogfarn droseddol gan ymgeisydd, neu rybudd neu gerydd neu drosedd yrru, mae'n bosibl y caiff y cais ei gyfeirio ar gyfer penderfyniad oddi wrth Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor. Caiff yr ymgeisydd wahoddiad i fynychu'r cyfarfod a gall ddod yng nghwmni cynrychiolydd a/ neu gynrychiolydd cyfreithiol i siarad o blaid y cais. Yna bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn penderfynu a ydyn nhw'n ystyried bod yr ymgeisydd yn 'berson abl a phriodol' i fod yn ddeiliad trwydded a rhoi gwybod beth yw'r penderfyniad ymhen pum niwrnod gwaith.

## NEWID AMGYLCHIADAU

Rhaid i chi ddatgelu unrhyw newid yn eich amgylchiadau i'r Swyddog Trwyddedu ar unwaith.

## AMODAU

Ar ôl cael trwydded oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fe fydd yn amodol ar amodau, rhag-amodau ac is-ddeddfau'r Cyngor mewn perthynas â Gyrwyr Llogi Preifat a Cherbydau Hacni. Os byddwch yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, neu mewn perthynas â Gyrwyr Cerbyd Hacni, yr is-ddeddfau, gallai'r Cyngor atal neu ddiddymu eich trwydded a gallech chi gael eich erlyn. Mae copïau o'r uchod wedi eu cynnwys ym mhecyn ymgeisio'r gyrrwr.

## BATHODYNNAU YCHWANEGOL

Os byddwch yn cael eich Trwydded Cerbyd Hacni neu Drwydded Gyrrwr Llogi Preifat, byddwch yna'n gymwys i wneud cais am eich ail fathodyn gyrrwr (Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Logi Preifat) am gost ostyngol o £20.

## GWYBODAETH BELLACH

Er mwyn gwneud apwyntiad gwneud cais am drwydded, neu am wybodaeth bellach neu gyngor cysylltwch â'r Adran Drwyddedu ar 01685 725000.

Adran Drwydded, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN